Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Mr Jeremy Patterson
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Spa Road East
Llandrindod, Powys
LD1 5LG

20 Mehefin 2014

Annwyl Mr Patterson

**Ymweliad monitro gan Estyn, 19-22 Mai 2014**

Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn Chwefror 2011, nodwyd bod angen gweithgarwch dilynol ar yr awdurdod drwy fonitro gan Estyn. Cafodd cynnydd yr awdurdod ei fonitro yn Hydref 2012. Canfu'r arolygwyr nad oedd digon o gynnydd wedi'i wneud yn erbyn yr argymhellion, a chanfuwyd bod angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod. Yn sgil hynny, cytunwyd ar gynllun monitro gyda'ch arolygwyr cyswllt yn Estyn, a chynhaliwyd yr ymweliad monitro cyntaf ar gyfer y cynllun hwn o 23-25 Hydref 2013. Cynhaliwyd yr ail ymweliad monitro, sef yr ymweliad terfynol, o 19-22 Mai 2014. Mae'r llythyr hwn yn cofnodi canlyniadau terfynol y gwaith monitro ôl-arolygiad gan Estyn.

Ym Mai 2014, arweiniodd Mererid Stone AEM dîm o bedwar arolygydd i adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn y tri argymhelliad a oedd yn weddill o'r wyth argymhelliad a ddeilliodd o'r arolygiad gwreiddiol ac o ymweliad monitro Hydref 2012. Hefyd, bu'r tîm yn ystyried perfformiad cyffredinol yr awdurdod yn erbyn ei gynllun gweithredu ôl-arolygiad.

Cynhaliodd y tîm drafodaethau gydag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig, y prif weithredwr, uwch swyddogion, penaethiaid a chynrychiolwyr partner. Bu arolygwyr yn craffu ar ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed ar bob un o argymhellion Estyn.

Ar ddiwedd yr ymweliad monitro, adroddodd y tîm eu canfyddiadau wrthych chi, fel y prif weithredwr, ac i arweinydd y cyngor, yr aelod cabinet ar gyfer addysg a phennaeth dros dro y gwasanaeth ysgolion. Roedd y cyfarwyddwr addysg a phennaeth gwasanaethau dysgu o Geredigion yn bresennol hefyd, ynghyd â phennaeth canolfan Powys-Ceredigion y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW
Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446 • Ffacs/ Fax 02920 446448
Ebost/Email enquiries@estyn.gov.uk • http://www.estyn.gov.uk

Bernir bod Cyngor Sir Powys wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad yn Chwefror 2011, a'r ymweliad monitro yn Hydref 2012. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oes angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod lleol mwyach ac mae'n ei dynnu o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Ers yr ymweliad monitro gan Estyn yn Hydref 2012, sicrhawyd newid sylweddol, gan arwain at welliant yn gorfforaethol ac yn y Gwasanaeth Ysgolion.

Yn dilyn yr ymweliad monitor, gweithredodd yr aelodau etholedig a'r prif weithredwr i wneud gwelliannau ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaethau er mwyn gwella deilliannau dysgwyr. Yn benodol, fe wnaethant gydnabod bod angen gwelliannau ar fyrder o ran cynllunio strategol, hunanarfarnu a rheoli perfformiad y gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc. Gweithredodd y prif weithredwr yn gyflym ac yn bendant i ddileu rhwystrau rhag cynnydd. Gwnaeth yr awdurdod benderfyniad mentrus i gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion ynglŷn â gweithio ar y cyd. O ganlyniad, fe wnaethant sicrhau trefniadau cydweithio effeithiol, ac maent wedi rhoi'r trefniadau hyn ar waith yn llwyddiannus.

Yn ystod y cyfnod hwn, ymgymerodd y prif weithredwr â rôl statudol y cyfarwyddwr addysg, gyda Chyngor Sir Ceredigion yn arwain y broses wella ochr yn ochr ag uwch reolwyr Gwasanaeth Ysgolion Powys. Mae ymglymiad uwch swyddogion o Geredigion wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r cynnydd a wneir gan y cyngor, y Gwasanaeth Ysgolion ac ysgolion yr awdurdod. Mae eu hymglymiad wedi galluogi'r awdurdod i ad-drefnu'r gwasanaeth yn gyfan gwbl er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy.

Mae llawer o'r gwaith hwn wedi'i ysgogi gan gyflwyno fframwaith cynllunio ac atebolrwydd cynhwysfawr a chadarn o Geredigion. Mae hwn yn cynnwys cynlluniau manwl ar sawl lefel, o gynlluniau datblygiad personol i gynlluniau gwasanaethau, a chynlluniau busnes. Mae gan bob un o'r cynlluniau hyn swyddogion cyfrifol enwebedig, ac mae pob un ohonynt yn bwydo i gynllun busnes y gwasanaeth addysg, sy'n ymgorffori cynllun gweithredu ôl-arolygiad Estyn. Tanategir y fframwaith hwn gan strwythur adrodd cytûn i'r cabinet ac i'r aelodau craffu ar berfformiad, ac mae dyddiadau adolygu chwarterol ar gyfer pob cynllun.

Erbyn hyn, mae llawer mwy o dryloywder yng ngwaith y gwasanaeth a hefyd yn ei gyfathrebu ag ysgolion. Mae'r awdurdod wedi gwella o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau.

Mae cydweithio cadarn rhwng arweinwyr system a swyddogion eraill o Bowys a Cheredigion wedi cyfrannu'n sylweddol at y gwelliant yn y Gwasanaeth Ysgolion. Mae'r ddau gabinet bellach wedi cytuno i ffurfioli'r bartneriaeth â Cheredigion drwy ganolfan Ceredigion-Powys o fewn y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol.

**Argymhelliad 1**
**Datblygu gweithdrefnau hunanarfarnu effeithiol (A1 ymweliad monitro 2012)**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da iawn o ran gwella ei drefniadau ar gyfer hunanarfarnu, yn gorfforaethol ac o fewn y Gwasanaeth Ysgolion.

Mae proses gorfforaethol glir i arfarnu cynlluniau gwella gwasanaethau ynghyd â'r Cynllun Powys yn Un, sef cynllun integredig sengl y cyngor. Caiff dangosyddion perfformiad a chamau gweithredu eu monitro bob chwarter a'u cofnodi drwy system raddio coch, ambr, gwyrdd sy'n dynodi pa mor dda y cyflawnir pob un ohonynt, yn ogystal â sylwadau ar effeithiolrwydd camau gweithredu. Nodir unrhyw gamau unioni. Mae'r adolygiadau chwarterol hyn yn cael eu tynnu ynghyd ar draws yr holl wasanaethau a chyflwynir adroddiad i'r cabinet a'r aelodau craffu ar berfformiad er mwyn dwyn swyddogion i gyfrif am eu gweithredoedd.

Caiff Cynllun Newid Powys, sef cynllun gwella'r Cyngor, ei arfarnu drwy 'Gridiau Gwerthuso Perfformiad' cadarn. Mae'r gridiau hyn yn rhoi model cyson ac effeithiol i arfarnu camau gweithredu ac effaith yn ogystal â nodi'n glir pa waith pellach sydd angen ei wneud. Ymgorfforir tystiolaeth yn y dogfennau hyn, ac maent ar gael i uwch swyddogion ac aelodau craffu eu gweld. Mae'r adolygiadau chwarterol yn adeiladu ar gofnod parhaus dros gyfnod, sydd wedyn yn bwydo i'r 'Gridiau Gwerthuso Perfformiad' ar gyfer yr adolygiad perfformiad blynyddol.

Cyhoeddwyd 'Adroddiad Perfformiad Blynyddol' ar ddiwedd Hydref 2013, a ddefnyddiodd y prosesau hyn yn briodol i nodi meysydd blaenoriaeth i'w gwella. Mae'r rhain bellach wedi'u hymgorffori'n gadarn yn y Cynllun Powys yn Un, a gymeradwywyd gan y cyngor yn Ebrill 2014.

Mae trefniadau clir a thrwyadl ar gyfer hunanarfarnu yn y Gwasanaeth Ysgolion drwy'r fframwaith atebolrwydd. Mae swyddogion yn adolygu cynlluniau drwy'r broses adolygu chwarterol. Mae pob lefel yn bwydo i'r lefel uwch gan arwain at arfarniad clir o gynnydd yn erbyn cynllun busnes y gwasanaeth. Daw blaenoriaethau newydd i'r amlwg yn briodol o'r adolygiadau hyn os yw arfarnu yn nodi eu bod yn angenrheidiol.

Mae swyddogion sy'n gyfrifol am feysydd gwaith yn deall yn dda bod rhaid iddynt arfarnu'r cynnydd a wnaed yn drwyadl a'u bod yn atebol amdano. Erbyn hyn, mae swyddogion unigol yn cymryd mwy o berchenogaeth am gynnydd yn y gwasanaeth a chânt eu herio'n fwy trwyadl ynglŷn â hyn. Maent yn gliriach ynghylch beth ddylent fod yn ei wneud, pryd fyddant yn gwybod pan fyddant wedi'i wneud yn ddigon da a ph'un a yw wedi arwain at welliant. Caiff uwch swyddogion wybodaeth dda am gynnydd a meysydd i'w gwella sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r Gwasanaeth Ysgolion yn cynnwys rhanddeiliaid yn fwy gweithredol erbyn hyn wrth arfarnu cynnydd. Mae'r 'Grŵp Ymgynghorol Gwella Ysgolion' a'r 'Grŵp Ymgynghorol Llywodraethwyr' yn ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid wrth herio'r gwasanaeth. Hefyd, mae'r awdurdod wedi datblygu arolwg canfyddiad ysgolion ar-lein blynyddol, sy'n ddefnyddiol, ac mae'n cyfrannu at ei arfarniad o gynnydd.

Darparodd yr awdurdod adroddiad hunanarfarnu defnyddiol cyn yr ymweliad monitro. Roedd yn arfarnol ac yn realistig, ac yn rhoi diweddariad am y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion hynny a gafodd eu monitro yn Hydref 2013, yn ogystal ag arfarniad trylwyr o'r argymhellion eraill. Rhoddodd drosolwg cywir o'r cynnydd sydd wedi'i wneud, a nododd yn glir y meysydd i'w datblygu ymhellach. Cyfrannodd aelodau etholedig allweddol a phenaethiaid yn dda at yr hunanarfarniad hwn.

Mae'r gwaith craffu a herio gan aelodau yn dda. Ceir 12 o weithgorau craffu sy'n ystyried agweddau gwahanol ar ddarparu gwasanaethau, ac maent yn drwyadl iawn o ran eu holi. Mae'r gweithgor craffu ar addysg yn dwyn aelodau a swyddogion i gyfrif yn effeithiol. Mae swyddogion o'r Gwasanaeth Ysgolion wedi gweithio'n dda gyda'r aelodau craffu i wneud yn siŵr bod gwelliant yn digwydd yn gyflym. Ymateba'r swyddogion hyn yn dda pan gânt eu herio gan aelodau craffu, a gwnânt newidiadau priodol. Mae'r gweithgor craffu ar addysg wedi cynhyrchu adroddiad clir a defnyddiol iawn ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad hwn yn arfarnol ac yn drylwyr, ac yn cynnwys argymhellion clir i'r deiliad portffolio ar gyfer dysgu.

Mae Cynllun Newid Powys wedi elwa ar her fewnol gadarn. Yn y llythyr Asesiad Gwella ym Medi 2013, dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru "Mae'r cadeiryddion a'r is-gadeiryddion craffu wedi herio'r cynllun drafft yn gadarn a nodi llawer o gyfleoedd i egluro'r cynnwys. Gweithredodd y cyngor i fynd i'r afael â'r materion a godwyd, drwy ddiwygio'r cynllun drafft neu gytuno i adlewyrchu'r sylwadau mewn cynlluniau dilynol. Lle nad ystyriwyd bod camau o'r fath yn briodol, rhoddwyd y rhesymau pam i aelodau gan swyddogion."

**Argymhelliad 2**
**Gwneud yn siŵr bod prosesau rheoli perfformiad yn gadarn a'u bod yn dwyn swyddogion i gyfrif (A2 o ymweliad monitro 2012)**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran gwella trylwyredd a chysondeb rheoli perfformiad yn y Gwasanaeth Ysgolion. Yn sgil cyflwyno'r fframwaith atebolrwydd, mae dull cadarn o reoli perfformiad wedi'i greu. Mae'n rhoi llinellau atebolrwydd clir i bawb, o swyddogion unigol i'r aelodau cabinet a'r pwyllgor craffu ar addysg. Mae uwch swyddogion ac aelodau cabinet yn cynnal adolygiadau cadarn o berfformiad a chynllunio gweithredu.

Mae pob aelod o'r Gwasanaeth Ysgolion yn cael cyfweliad gwerthuso blynyddol. O'r cyfweliad hwn, caiff eu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn eu nodi a'u cysylltu ag unrhyw gynlluniau priodol. Daw'r rhain yn gynllun personol yr unigolyn, a chaiff perfformiad ei fonitro'n rheolaidd yn ei erbyn. Yn ogystal, mae'r rheini sy'n gyfrifol am gynlluniau ar lefelau gwahanol yn cael goruchwyliadau chwarterol i fonitro cynnydd. Mae'r aelod cabinet ar gyfer dysgu hefyd yn cynnal cyfarfodydd monitro perfformiad chwarterol gyda deiliaid cynlluniau lefel uchel. Adroddir am gynnydd ar bob cynllun i'r gweithgor craffu ar addysg.

Mae'r system gorfforaethol ar gyfer rheoli perfformiad wrthi'n cael ei gwella ar sail fframwaith gwella perfformiad. Mae arfer yn y Gwasanaeth Ysgolion eisoes yn gyson â'r fframwaith hwn. Mae'r gwaith sydd wedi digwydd mewn addysg i wella rheoli

perfformiad a hunanarfarnu yn cael ei ymgorffori yn y fframwaith corfforaethol. Mae swyddogion yn dysgu o'r cynnydd sydd wedi'i wneud mewn addysg, ac yn ymgorffori'r rhain yn y system gorfforaethol.

**Argymhelliad 3**
**Sicrhau bod gwaith y Gwasanaeth Ysgolion yn cael ei gynllunio'n effeithiol, bod trefniadau trylwyr ar waith i sicrhau ei ansawdd a'i fod yn cael ei arfarnu'n gadarn er mwyn gwella'i effaith ar ddysgwyr (A3 o ymweliad monitro 2012)**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r awdurdod, mewn cydweithrediad ac uwch swyddogion o Geredigion, wedi gwella prosesau'n sylweddol i gefnogi, herio ac ymyrryd yn ei ysgolion. Mae diwylliant mwy agored a chydweithredol, a chaiff ysgolion mwy o gyfleoedd i ddylanwadu ar waith y Gwasanaeth Ysgolion.

Mae'r awdurdod wedi cryfhau ei dîm o arweinwyr system yn sylweddol ers Hydref 2012. Yn gyffredinol, mae'r swyddogion hyn yn adnabod ysgolion yn dda iawn ac yn dadansoddi ystod eang o ddata perfformiad yn drwyadl. Gyda chymorth gan Geredigion, mae'r awdurdod wedi casglu data manwl am berfformiad pob disgybl, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae arweinwyr system yn defnyddio'r data hwn y n gadarn i herio tanberfformiad ac i godi disgwyliadau athrawon ar gyfer eu disgyblion.

Erbyn hyn, mae arweinwyr system yn defnyddio'r fframwaith rhanbarthol yn fwy trwyadl i gategoreiddio ysgolion yn ôl risg, er bod barnau ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhy hael o hyd mewn ychydig o ysgolion. Mae ysgolion yn deall y categori y mae eu hysgol ynddo, a'r cymorth y byddant yn ei gael o ganlyniad i hyn.

Mae swyddogion yn cynnal rhaglen gynhwysfawr o ymweliadau ag ysgolion gan ganolbwyntio'n briodol ar yr ysgolion hynny y mae angen iddynt wella fwyaf. Yn ystod yr ymweliadau hyn, mae swyddogion yn monitro cynnydd tuag at dargedau cytûn, yn craffu ar waith disgyblion ac yn cynnal adolygiadau manwl o safonau a darpariaeth mewn llythrennedd a rhifedd. Pan fyddant yn nodi bod tanberfformio, rhoddir rhaglen ymyrraeth ar waith, yn cynnwys athrawon dosbarth yn ogystal ag arweinwyr canol ac uwch arweinwyr. Mae hyn yn cynnwys cymorth effeithiol i wella addysgu llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Mae arweinwyr system yn arfarnu cynnydd yn drylwyr bob hanner tymor. O ganlyniad, mae ysgolion yn glir ynghylch y meysydd y mae angen eu gwella ac yn gweithio'n unol ag agenda cyson drwy'r flwyddyn.

Mae'r awdurdod wedi datblygu system effeithiol i sicrhau y gall pob cymorth sydd wedi'i gynllunio gael ei ddarparu pan fydd angen. Mae'r arfer dda hon yn cael ei rhannu gydag awdurdodau eraill o fewn y consortiwm rhanbarthol erbyn hyn.

Mae ansawdd cofnodion ysgrifenedig o adolygiadau ac ymweliadau eraill ag ysgolion wedi gwella'n sylweddol. Mae'r nodiadau hyn yn arfarnol yn gyffredinol, yn nodi meysydd i'w gwella yn briodol ac yn gosod targedau a graddfeydd amser priodol. Maent yn amlinellu camau gweithredu i'r ysgol a'r awdurdod yn glir er mwyn sicrhau gwelliant. Mae'r pennaeth ysgolion interim a'r uwch arweinydd system wedi cyflwyno

prosesau effeithiol i ddatblygu medrau swyddogion a sicrhau ansawdd eu gwaith.  O ganlyniad, mae cysondeb yr her i ysgolion wedi gwella.

Mae'r awdurdod wedi darparu hyfforddiant defnyddiol i gyrff llywodraethol i'w helpu i ddeall perfformiad eu hysgolion.  Mae arweinwyr system yn mynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethol mewn ysgolion wedi'u targedu i adrodd ar ansawdd safonau a darpariaeth.  Darperir cymorth da i arweinwyr newydd mewn ysgolion.

Mae llai o ysgolion wedi'u rhoi mewn categori peri pryder mewn arolygiad ers ymweliad monitro Hydref 2012.  Mae'r awdurdod wedi dechrau defnyddio'i bwerau llawn i wneud yn siŵr bod ysgolion yn gwella'n ddigon cyflym, ac mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig allweddol yn cael eu cynnwys yn gynyddol wrth ddwyn arweinwyr ysgol i gyfrif yn gadarn.  Mae uwch swyddogion wedi mynd i'r afael yn effeithiol â materion yn ymwneud ag arweinyddiaeth mewn ysgolion ac wedi gwneud penderfyniadau anodd i ddelio â thanberfformio.  O ganlyniad, mae'r awdurdod wedi gwella ysgolion wedi'u targedu a'u hatal rhag mynd yn destun pryder. Fodd bynnag, nid oes digon o ysgolion yn cael eu nodi'n ysgolion ag arfer ragorol yn ystod y broses arolygu.

Mae data heb ei ddilysu yn dangos bod perfformiad yn 2014 wedi gwella o ran pob dangosydd yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.  Mae monitro cynnydd yn drwyadl mewn ysgolion uwchradd yn awgrymu y bydd perfformiad cyfnod allweddol 4 yn gwella yn y mwyafrif o ysgolion o leiaf yn 2014.

**Argymhelliad 4**
**Sicrhau bod cynllunio strategol yn canolbwyntio'n gyson ar gyflawni gwell deilliannau i ddysgwyr, a'i fod yn ymatebol i arweiniad Llywodraeth Cymru ar gynlluniau unigol (A4 o ymweliad monitro 2012)**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r awdurdod wedi gwella a chynyddu eglurder y broses cynllunio strategol, sydd belach yn canolbwytio'n fwy cyson ar gyflawni deilliannu gwell ar gyfer dysgwyr.

Mae gweithredu dull strwythuredig, hirdymor o wella gwasanaethau, gyda phrosesau gweithredol a chynllunio strategol clir, yn rhoi cyfeiriad cliriach i bawb sydd ynghlwm â chynllunio a chyflwyno gwasanaethau addysg.  Ochr yn ochr â hyn, mae'r fframwaith atebolrwydd cadarn yn rhoi arweiniad clir ar y camau gweithredu manwl sydd eu hangen ar bob lefel er mwyn sicrhau a chynnal y gwelliannau.  Mae pob un o'r rhain yn cysylltu'n glir â Chynllun Newid Powys ar gyfer 2013-2016.

Cynllun Newid Powys yw dogfen drawsnewid allweddol y cyngor ac mae'n cyfleu gweledigaeth a dyheadau'r cyngor yn glir.  Mae argymhellion gan reoleiddwyr wedi'u hymgorffori'n gadarn yn y cynllun, ac mae dolen ddi-dor yn rhedeg o strategaeth lefel uchel, drwodd at gynlluniau gwella gwasanaethau.  Mae'r Gwasanaeth Ysgolion yn gwbl ymroddedig i'r fframwaith cynllunio er mwyn sicrhau bod gwella deilliannau dysgwyr wrth graidd busnes y cyngor a datblygu'r cynllun integredig sengl.

Cwblhawyd y broses o integreiddio Cynllun Newid Powys â'r Cynllun Powys yn Un yn brydlon a chafodd gymeradwyaeth gan y cyngor yn Ebrill 2014.  Mae'r cynllun cyfunol hwn yn cynnwys pum maes blaenoriaeth.  Ategir pob blaenoriaeth gan fwrdd

cyflawni, ac mae cysylltiadau â gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn glir o fewn y rhain.

Mae'r cyngor a phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi cynllunio i ddarparu gwasanaethau ar lefel leol, yn unol ag anghenion y gymuned. Mae hyn yn cydymffurfio ag arweiniad Llywodraeth Cymru ar integreiddio partneriaethau a chynlluniau.

Mae'r cyngor yn cryfhau'r broses gynllunio newydd hon ymhellach gyda ffocws cryfach ar flaenoriaethau cyllidebol, gan sicrhau'n benodol y bydd cyllidebau ysgolion yn cael eu cynnwys yn y cynllun ariannol canol tymor (tair blynedd) a chynlluniau gwella gwasanaethau. Mae hyn yn cysylltu cynllunio a chyllid â gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr yn glir.

**Argymhelliad 5**
**Gweithredu mewn ffordd amserol i gyflawni ei raglen moderneiddio addysg (A5 o ymweliad monitro 2012)**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gweledigaeth glir gan y prif swyddog gweithredol ar gyfer moderneiddio ysgolion. Mae penderfyniadau a wneir ar uno a chau ysgolion yn ystyried fwyfwy y safonau a gyflawnir gan ysgolion, a ffigurau poblogaeth a ragamcenir ochr yn ochr â chynlluniau datblygu lleol. Mae uwch swyddogion ac aelodau'r cyngor yn gweithio'n dda â'i gilydd. Maent yn gwneud penderfyniadau anodd o fewn cyfnod amser byr yn aml i wella darpariaeth i ddysgwyr. Mae aelodau yn barod i roi buddiannau strategol Powys o flaen materion lleol. Er enghraifft, gweithredodd swyddogion ac aelodau yn gyflym i gynnig cau Ysgol Uwchradd John Beddoes. Erbyn hyn, mae'r ysgol wedi'i huno ag Ysgol Uwchradd y Drenewydd o dan drefniadau rheoli ar y cyd.

Mae prosesau ymgynghori da ar waith gan yr awdurdod ar gyfer yr holl brosiectau moderneiddio ysgolion. Mae'r rhain yn sicrhau bod gan staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned leol ddealltwriaeth glir o gynigion ar gyfer cau ac uno ysgolion. Trwy gyfarfodydd cyhoeddus, gall grwpiau gwahanol roi eu barnau gerbron, ac mae'r rheini yr ymgynghorir â nhw yn deall penderfyniadau'n well erbyn hyn, er nad ydynt o bosibl yn cytuno â'r canlyniadau. Mae'r awdurdod lleol yn ystyried ystod briodol o ffactorau wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chau ac uno ysgolion. O ganlyniad i'r broses hon, mae'r awdurdod wedi cau nifer fawr o ysgolion cynradd yn llwyddiannus, ac wedi ffedereiddio ysgolion eraill, a lleihau lefel y lleoedd dros ben mewn ysgolion cynradd i 14%. Gyda mwy o ostyngiadau wedi'u cynllunio dros y 12 mis nesaf, mae'r awdurdod ymhell ar y blaen o ran bodloni targed Llywodraeth Cymru, sef 15% o leoedd dros ben mewn ysgolion cynradd erbyn Ionawr 2016.

Mae adolygiad annibynnol wrthi'n cael ei gynnal o hyfywedd y ddarpariaeth ysgolion uwchradd bresennol oherwydd bod niferoedd yn gostwng, a bydd y cabinet yn ystyried canlyniadau hyn yn ystod y misoedd nesaf er mwyn llywio'u penderfyniadau ymhellach ynglŷn â'r ddarpariaeth uwchradd ac ôl-16 yn y dyfodol.

Mae'r 'Bwrdd Cyflawni Rhaglenni Ysgolion' yn monitro cynnydd cynlluniau prosiectau'n ofalus. Mae'n sicrhau bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal i fynd i'r afael â bygythiadau posibl i gwblhau prosiectau'n llwyddiannus. Mae enghreifftiau'n cynnwys ailfodelu adeiladau ym Maesydderwen yn llwyddiannus, a sefydlu ysgol newydd 4 i 18 oed ym Machynlleth o 1 Medi 2014.

**Argymhelliad 6**
**Gwella cysondeb a chywirdeb asesiadau athrawon yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 (A2 o arolygiad 2011)**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r bartneriaeth a sefydlwyd gyda Gwasanaeth Gwella Ysgolion Ceredigion yn llwyddo o ran codi lefel yr her a ddarperir gan yr awdurdod lleol i bob un o'i ysgolion. Yn ystod cynhadledd y penaethiaid yn Ebrill 2013, cafodd data o bob ysgol ei rannu a gwnaed cymariaethau ag ysgolion eraill o fewn yr awdurdod, awdurdodau eraill yng Nghymru a chwarteli meincnod prydau ysgol am ddim. Llwyddodd y gynhadledd i gynyddu ymwybyddiaeth penaethiaid o danberfformio yn y pynciau craidd.

Dangosodd deilliannau o'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol newydd nad oedd asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol 2 a 3 yn ddigon cywir. O ganlyniad, mae safoni a chymedroli ar lefel awdurdod wedi'u cryfhau, a rhannwyd disgwyliadau clir gydag ysgolion. Arweiniodd hyn at heriau mewn ysgolion lle'r oedd arweinwyr systemau yn nodi tanberfformio mewn data ar lefel disgyblion. Yn achos rhai heriau, darparodd ysgolion esboniadau dilys am y tanberfformio posibl. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, arweiniodd hyn at ailystyried asesiadau a newidiadau yn sgil hynny yn unol ag egwyddorion 'ffit orau' i adlewyrchu cynnydd disgyblion yn fwy cywir.

Roedd diwrnod cymedroli ledled Powys yn Ebill 2014, yn cynnwys pob athro ysgol gynradd ac athrawon uwchradd perthnasol, yn cynnwys ffocws ar gryfhau cywirdeb asesiadau athrawon. Fe wnaeth cydweithredu a rhannu arfer dda helpu gwella medrau'r rhan fwyaf o athrawon i asesu gwaith disgyblion yn fwy cywir. Mae'r trefniadau sydd ar y gweill i gadarnhau asesiadau mewn cymhariaeth â deilliannau o brofion cenedlaethol, yn ffurfio rhan o'r broses sicrhau ansawdd gadarn sydd ar waith erbyn hyn.

**Argymhelliad 7**
**Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol (ADY) pob ysgol yn cael eu cynllunio a'u monitro'n strategol, a gwneud y defnydd gorau o arbenigedd y staff (A3 o arolygiad 2011)**

Aethpwyd i'r afael yn rhannol â'r argymhelliad hwn.

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r awdurdod wedi dangos ymrwymiad clir i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Gyda chymorth Cyngor Ceredigion, mae polisi a strategaeth glir gan yr awdurdod erbyn hyn mewn perthynas ag addysgu plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig (AAA).

Ar ôl yr ymweliad monitro yn Hydref 2012, roedd rheolaeth strategol dros ADY yn cael ei darparu gan swyddogion o Geredigion am fod yr awdurdod, yn briodol, wedi cydnabod ei ddiffyg gallu i ddarparu gwasanaethau ADY ar lefel strategol. Mae rheolwr ADY newydd wedi'i benodi erbyn hyn, a hefyd, mae'r awdurdod wedi hysbysebu am reolwr cymorth ymddygiad.

Mae dealltwriaeth glir gan yr awdurdod yn awr o'r hyn sydd angen ei wneud i wella gwasanaethau ADY. Mae'r cynllunio strategol ar gyfer ADY wedi'i sefydlu'n gadarn drwy fframwaith atebolrwydd y Gwasanaeth Ysgolion. Mae cynlluniau gwella yn nodi ffynonellau cyllid yn glir ac yn pennu graddfeydd amser realistig ar gyfer cyflawni. Mae prosesau clir ar waith gan yr awdurdod ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu.

Yn 2013, comisiynodd yr awdurdod adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer disgyblion ag ADY, ac adolygiad o'r ddarpariaeth ar gyfer cymorth ymddygiad. Fe wnaeth yr adolygiadau cynhwysfawr hyn nodi cryfderau a diffygion yn y ddarpariaeth bresennol yn gywir ac arweiniodd at set glir o argymhellion.

Nododd yr adolygiad o ADY yn briodol yr angen i ystyried rôl a swyddogaeth canolfannau arbenigol yr awdurdod, ac argymhellodd y dylai'r awdurdod benderfynu p'un ai i gadw, cau neu newid y defnydd o bob canolfan bresennol. Yn allweddol i hyn yw'r egwyddor y dylai pob disgybl ar hyd a lled Powys gael mynediad at ddarpariaeth effeithiol sy'n bodloni'u hanghenion, ac y dylai disgyblion, lle bo modd, gael eu haddysgu yn eu hysgolion prif ffrwd lleol.

Rhwng Chwefror a Mawrth 2014, cynhaliodd yr awdurdod ymgynghoriad ffurfiol ar gynnig i gau ei unedau asesu cyn-ysgol a'i unedau cymorth arbenigol cynradd, ac i sefydlu tîm canolog o athrawon ymgynghorol a chynorthwywyr addysgu arbenigol. Gyda chymorth gwasanaeth ysgolion Ceredigion, maent wrthi'n adolygu'r wybodaeth a dderbyniwyd ar hyn o bryd, a disgwylir iddynt gyflwyno adroddiad i'r cabinet yng Ngorffennaf.

Mae'r awdurdod yn cydnabod yn briodol bwysigrwydd cynllunio'n ofalus ar gyfer unrhyw newid mewn perthynas â'r unedau. Mae hyn yn cynnwys yr angen i uwchsgilio staff mewn ysgolion prif ffrwd, trwy benodi tîm canolog o staff arbenigol, a datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr. Mae cyllid wedi'i sicrhau i gyflogi pum athro ymgynghorol a phum cynorthwyydd addysgu. Bwriedir y dylai'r staff hyn fod yn eu lle erbyn tymor yr hydref. Eu rôl fydd darparu cyngor a her i ysgolion prif ffrwd.

Ym Mhowys, gwelir cymorth ar gyfer ADY fel rhan annatod o wella ysgolion. Mae hyn yn arfer dda. Er mwyn datblygu hyn ymhellach, bydd tîm newydd o athrawon ymgynghorol a chynorthwywyr yn cael ei reoli gan arweinydd system.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cyflwyno cronfa ddata gynhwysfawr ar lefel disgyblion wedi galluogi swyddogion i fonitro cynnydd disgyblion ag ADY yn fwy effeithiol, a darparu her fwy trwyadl i ysgolion. Mae'r awdurdod hefyd wedi dechrau defnyddio'r data hwn yn effeithiol i lywio'r cynllunio ar lefel strategol.

Mae'r awdurdod hefyd wedi cydnabod yr angen i adolygu'r fformiwla ar gyfer ariannu AAA mewn ysgolion prif ffrwd, ac mae'n bwriadu cyflwyno model newydd ar gyfer

ysgolion cynradd yn Ebrill 2015.  Nod hyn yw sicrhau defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau, gyda fformiwla ariannu wedi'i symleiddio.

**Argymhelliad 8**
**Cymryd camau effeithiol i leihau'r diffyg yng nghyllidebau ysgolion (A5 o arolygiad 2011)**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Yng Ngorffennaf 2012, cytunodd y cabinet ar feini prawf llym ar gyfer rheoli diffygion mawr yng nghyllidebau ysgolion.  Roedd y meini prawf yn cynnwys cyfleuster benthyg gydag amodau wedi'u diffinio'n dynn a'r gofyniad i ysgolion gynhyrchu cynlluniau adfer priodol ac wedi'u costio'n llawn, gyda graddfeydd amser clir, yn amodol ar gymeradwyaeth ar lefel cyfarwyddwr strategol.  Fe wnaeth y mesurau hyn, law yn llaw â chymorth interim da ar gyfer ysgolion dynodedig ar faterion ariannol a materion y cwricwlwm, helpu i wella gallu ysgolion i reoli'u cyllidebau'n fwy effeithiol.  O ganlyniad, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2013-2014, roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion dynodedig ar y trywydd iawn i ddatrys eu materion cyllidebol trwy fesurau wedi'u cynllunio'n ofalus.

Yn ogystal, cydnabu'r awdurdod bod angen atebion tymor hwy drwy systemau diwygiedig i gefnogi rhagamcanu a chynllunio cyllidebau yn effeithiol ar gyfer pob un o'i ysgolion.  O ganlyniad, ar ddiwedd yr hydref 2012, aeth yr awdurdod ati, mewn partneriaeth â swyddogion o Geredigion, i ffurfio gweithgor i adolygu'r fformiwla ar gyfer ariannu ysgolion.  Nod yr adolygiad oedd gwneud y ffordd y caiff arian ei ddirprwyo i ysgolion yn broses decach a mwy tryloyw.  Ar yr un pryd, darparodd yr awdurdod hyfforddiant ar arfer dda mewn rheolaeth ariannol i benaethiaid a llywodraethwyr.  Helpodd hyn i wella dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau cyfreithiol ar ysgolion a chyrff llywodraethol wrth bennu eu cyllidebau.

Mae'r fformiwla diwygiedig yn rhoi ystyriaeth briodol i niferoedd rhagamcanol y disgyblion ac yn cynnwys cyfandaliad ar gyfer pob ysgol.  Mae'n darparu ar gyfer rhagamcaniadau ariannol tair blynedd i helpu ysgolion gynllunio'u cyllidebau a lefelau staffio dros gyfnod hwy. Daw'r cynllun, a gymeradwywyd gan y cabinet ar ddechrau'r gwanwyn 2014, i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-2015, a bydd wedi'i gyflwyno'n llawn erbyn Ebrill 2017.  Mae'r trefniadau newydd yn darparu rheolaethau ariannol tynnach ar ysgolion i sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn mantoli eu cyllidebau o fewn cyfnod tair blynedd.

Ym Mai 2014, cymeradwyodd y cabinet fireiniadau pellach i'r cynllun.  Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno trefniadau adfachu ar gyfer ysgolion â gwargedau cyllideb sylweddol dros gyfnod estynedig a hefyd lleihau'r amser ar gyfer diffygion trwyddedig i uchafswm o dair blynedd.  Erbyn hyn, mae'n ofynnol i ysgolion â diffyg yn eu cyllidebau gyflwyno cynlluniau adfer i'r awdurdod lleol eu cymeradwyo o fewn graddfa amser briodol.

Ar yr un pryd ag yr oeddent yn diwygio'r fformiwla ariannu ar gyfer ysgolion, dechreuodd yr awdurdod ad-drefnu ei wasanaeth ysgolion i gynnwys cefnogaeth adnoddau ariannol ac adnoddau dynol gwell i bob ysgol, gan arwain at greu cytundebau lefel gwasanaeth newydd.  Dylai'r swyddi sydd newydd eu creu, sef swyddog cyllid ysgolion ac uwch bartner busnes adnoddau dynol, ynghyd â thimau

cefnogi pwrpasol, wella gallu'r awdurdod i ddarparu lefelau uwch o gymorth a her i ysgolion ar faterion cyllidebol a materion staffio ar sail anghenion y cwricwlwm.

**Camau nesaf**

Dylai'r awdurdod barhau i weithio i wella'i ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd eich arolygwyr cyswllt yn parhau â'u gwaith gyda'r awdurdod, yn eu rôl gyswllt arferol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

Clive Phillips
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

cc: Llywodraeth Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes CCBC